Ysgoloriaethau Astudio Cyfrwng Cymraeg
- Telerau ac Amodau -

1. Mae unrhyw fyfyriwr israddedig a ddechreuodd ei gwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2020 yn gymwys i dderbyn Ysgoloriaeth Astudio Cyfrwng Cymraeg os ydynt yn cofrestru i astudio'r nifer canlynol o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na thrwy'r Saesneg, pan yn bosibl:

   i. £200 ar gyfer 5 – 24 o gredydau cyfrwng Cymraeg
   ii. £250 ar gyfer 25-44 o gredydau cyfrwng Cymraeg
   iii. £300 ar gyfer 45-64 o gredydau cyfrwng Cymraeg
   iv. £350 ar gyfer 65-84 o gredydau cyfrwng Cymraeg
   v. £400 ar gyfer 85+ o gredydau cyfrwng Cymraeg

   Edrychwch ar eich dewisiadau o fodiwlau ar eich cofnod myfyriwr i weld faint o gredydau cyfrwng Cymraeg rydych chi wedi cofrestru arnynt.

2. Bydd ymgeiswyr cymwys yn cael eu hadnabod yn awtomatig, yn unol â'u cynllun gradd a'u dewis o fodiwlau; nid oes rhaid ymgeisio am yr ysgoloriaethau hyn.

3. Mae pob cynllun gradd israddedig amser-llawn yn gymwys i'w hystyried ac eithrio cyrsiau a gynigir yn unig gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd. Yn achos cynlluniau cyfun neu gynlluniau is bwnc : prif bwnc a gynigir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, bydd y cwrs yn berthnasol pan fydd y credydau cyfrwng Cymraeg wedi'u derbyn gan y pwnc 'arall', h.y. y maes pwnc nad yw'n cael ei ddarparu gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd. Bydd modiwlau a gyngir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn cael eu cynnwys fel rhai cymwys ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio cynllun gradd mewn adran arall.

   Er enghraifft:
   - I fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gynllun gradd GQ15 Cymraeg a Mathemateg, bydd rhaid i'r holl gredydau cymwys ddod o'r elfen Fathemateg yn hytrach na'r Gymraeg.
   - I fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gynllun gradd C100 Bioleg, bydd yr holl gredydau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried, gan gynnwys modiwlau a gynigir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

4. Bydd taliad yn cael ei wneud yn uniongyrchol i gyfrif banc deiliad yr ysgoloriaeth ar ddechrau mis Mawrth bob blwyddyn tra bydd y deiliad yn dal yr ysgoloriaeth. Bydd cymhwysedd pob myfyriwr ar gyfer yr ysgoloriaeth yn cael ei ail-asesu yn flynyddol.

5. Os nad yw myfyriwr yn cwblhau'n dderbyniol y credydau cyfrwng Cymraeg angenrheidiol neu yn newid i fodiwl anghymwys ar ôl i'r taliad gael ei wneud, bydd gofyn iddynt ad-dalu'r swm a dderbyniwyd.

6. Mae'r uchod yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2020/21; ni fydd dyfarniadau'n cael eu hôl-ddyddio.

7. Ni wneir taliadau ar gyfer blynyddoedd a ailadroddir, blynyddoedd profiad gwaith, blynyddoedd mewn diwydiant, blynyddoedd tramor ayb.